

Cost y Bwrdd Taliadau

8 Ebrill 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 9 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

What has been the total cost of the Remuneration Board to date during the 5th Senedd. Could you detail all costs on travel, accommodation and incidental expenditure in each financial year. Could this also be broken down individually?

Yn unol â'r darpariaethau sydd wedi'u nodi yn adran 11 o'r **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**, rhaid i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y "Bwrdd"), cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, osod gerbron y Senedd adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau, gan gynnwys sut mae wedi defnyddio adnoddau (gan gynnwys treuliau teithio, treuliau llety a mân dreuliau), yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Fel arfer, mae'r Bwrdd yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.

Mae'r holl adroddiadau blynyddol sydd wedi'u cyhoeddi gan y Bwrdd presennol a chan Fyrddau blaenorol ar gael yma: <https://www.bwrddtaliadau.cymru/adroddiad-blynyddol/>.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Disgwylir i'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, sef 2020-21, gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2021.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Oherwydd y bydd y wybodaeth rydych yn gofyn amdani yn cael ei chyhoeddi, ni fyddwn yn darparu'r wybodaeth ar hyn o bryd, gan y bydd modd i chi weld y wybodaeth pan gaiff ei chyhoeddi, a hynny'n llawn. Mae'r rhesymau dros beidio â darparu'r wybodaeth ar hyn o bryd wedi'u hesbonio yn adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae rhesymau eraill pam fo'r eithriad hwn yn berthnasol wedi'u nodi yn yr **Atodiad** isod.

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Atodiad

Mae adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn darparu bod:

(1) Gwybodaeth yn wybodaeth wedi'i heithrio:

(a) os yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan yr awdurdod cyhoeddus gyda'r bwriad o'i chyhoeddi, gan yr awdurdod neu gan berson arall, rywbryd yn y dyfodol (p'un a yw'r dyddiad wedi'i bennu ai peidio);

(b) os oedd y wybodaeth yn cael ei chadw eisoes gyda'r bwriad o'i chyhoeddi pan wnaed y cais am ei gweld, a

(c) os yw'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i beidio â rhyddhau'r wybodaeth tan y dyddiad a nodir ym mharagraff (a).

Mae adran 22 yn eithriad amodol a chan hynny mae angen ystyried prawf o fudd cyhoeddus.

Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Bwrdd Taliadau yn cyhoeddi adroddiad blynyddol (yn ogystal ag agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd).

Arfer y Bwrdd yw cyhoeddi'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani fel rhan o'i adroddiad blynyddol, a disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Gorffennaf. Yn aml, yr amseriad ar gyfer datgelu'r wybodaeth dan sylw yw'r prif ffactor y mae'n rhaid i ni ei ystyried wrth bwysu a mesur budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad hwn. Rydym o'r farn bod y trefniant presennol ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad blynyddol yn amserlen resymol o ran y bwlch rhwng eich cais a'r cam disgwylidig o gyhoeddi'r wybodaeth y gwnaed cais yn ei chylch.

Ni allwn weld unrhyw amgylchiadau sy'n awgrymu y byddai datgelu'r wybodaeth yn gynt nag arfer o unrhyw fudd cyhoeddus yn yr achos penodol hwn. Gan hynny, rydym o'r farn nad yw'r budd cyhoeddus a fyddai ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth yn gynt nag arfer yn drech na'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth gadw at y trefniadau uchod.